O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 1103 (Cy. 265)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

Gwnaed	*4 Tachwedd 2016*
Yn dod i rym	*7 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd honno neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Tachwedd 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2. — (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 7 Tachwedd 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd Gorllewin Glynebwy yn Sir Blaenau Gwent a Chylchfan Hardwick yn Sir Fynwy a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd

modur fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, oddiweddyd wrth yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur oddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

Atal

10. Mae darpariaethau 'The Trunk Roads (50 M.P.H. Speed Limit) (Wales) (No.1) Order 1969'(**2**) drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cymhwyso

11. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Tachwedd 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
(**2**) S.I.1969/745

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden hyd at ddechrau ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr i ganol ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Y gerbytffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r gorllewin hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r dwyrain.

Y gerbytffordd gylchredol honno o Gylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r A465 tua'r dwyrain yr hyd at ei ffordd ymuno â'r A465 tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

DIM TROI I'R DDE

Dim troi i'r dde oddi ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd Gilwern i Station Road.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 800 o fetrau i'r gogledd orllewin o ganol y Cylchfan Bryn-mawr i Ganolfan Cyffordd Dwyrain Fro Glyn Ebwy ar ffordd ymadael

ATODLEN 4

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 800 metr i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 5

GWAHARDD BEICWYR

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (lonydd aliniad newydd) o ganol ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.